**CABINET**

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 28 Gorffennaf 2015 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts, Jason McLellan, Merfyn Parry, Arwel Roberts a David Simmons.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau’r Gyfraith, AD a Democratiaeth (GW), Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (PG); Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW); Refeniw a Budd-daliadau (RU); a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

**3 MATERION BRYS**

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mehefin 2015 fel cofnod cywir ac y dylai’r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL MEWNOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Gofal Cymdeithasol Mewnol yn nodi canfyddiadau’r ymarfer casglu gwybodaeth o

adolygiadau unigolion a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal mewnol a cheisio cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar awgrymiadau ar gyfer Awelon, Cysgod y Gaer, Dolwen a Hafan Deg a dechrau tendro ar gyfer darpariaeth gofal yn y cartref mewn cynlluniau gofal ychwanegol.

Darparodd y Cynghorydd Feeley rywfaint o gyd-destun yr adroddiad gan amlygu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a'r galw i foderneiddio gwasanaethau mewn ymateb i newidiadau demograffig ac anghenion y cyhoedd, gan ystyried effaith toriadau cyllidebol sylweddol a sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol. Cymerodd y cyfle i ddiolch i'r Grŵp Tasg a Gorffen a'r swyddogion am eu gwaith caled yn archwilio'r opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel gan ystyried anghenion lleol ac egluro'r awgrymiadau a gyflwynwyd ar gyfer gwasanaethau gofal mewnol yn y dyfodol. Dengys ymchwil fod y galw am ofal preswyl yn lleihau a bod pobl yn ffafrio byw'n annibynnol gyda chefnogaeth a bod galw am ofal Iechyd Meddwl i'r Henoed a gwelyau nyrsio. Credwyd y byddai'r cynigion cyfredol yn darparu gwasanaeth da i breswylwyr Sir Ddinbych yn y dyfodol.

Nododd y Cabinet y gwahaniaeth rhwng y cynigion gwreiddiol a chyfredol a oedd yn arddangos bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd wedi'u hystyried. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol-

- Cafwyd eglurhad o rôl y Sefydliad Ymgynghori fel arbenigwyr mewn ymarferion ymgynghori cyhoeddus a cheisiwyd eu cyngor er mwyn diogelu yn erbyn her a sicrhau bod y canlyniad terfynol yn gyraeddadwy.
- byddai natur a'r math o bartneriaethau a awgrymwyd yn amrywio gan ddibynnu ar yr anghenion mewn gwahanol ardaloedd a byddai'n debygol o gynnwys partneriaethau yn y sectorau preifat a gwirfoddol – pe bai'r awgrymiadau'n cael eu cytuno byddai'n ofynnol ceisio datganiadau diddordeb er mwyn darparu'r canlyniadau a allai gynnwys eraill yn darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor.
- Amlygwyd pwysigrwydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i ddarparu gwasanaethau gofal lleol ar gyfer pobl hŷn, a theimlwyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu'r elfen hon o waith partneriaeth yn y dyfodol - cytunwyd y dylid cyfeirio at hyn yn y penderfyniad.
- Nodwyd nad oedd yn gost effeithiol i Sir Ddinbych dderbyn preswylwyr i gartrefi gofal o'r tu allan i'r Sir ar hyn o bryd, ond gallai hyn newid yn y dyfodol o ganlyniad i waith partneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill.
- Er y darparwyd sicrwydd o ran darparu gwasanaethau gofal trwy gyfrwng y Gymraeg nid oedd cyfeiriad penodol at hyn yn yr adroddiad – cytunwyd y dylid adlewyrchu hyn yn y penderfyniad pe bai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion, ac y dylid egluro yn y broses ymgynghori bod y Gymraeg yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaethau yn y dyfodol.
- o ran Awelon cydnabuwyd na fyddai'n briodol symud rhai o'r preswylwyr, felly roedd gweledigaeth hirach ar gyfer y safle hwnnw – cytunwyd y dylid aralleirio'r argymhelliad i adlewyrchu hyn.
- darparwyd rhai terfynau amser dangosol pe bai'r awgrymiadau yn cael eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a gwireddu arbedion yn y dyfodol.

Darparodd y Cynghorydd David Simmons, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad, drosolwg o drafodaeth y Pwyllgor Archwilio a'r sylwadau a oedd wedi'u crynhoi yn yr adroddiad. Roedd proses asesu gofal dydd hefyd wedi'i godi fel mater ac o ran gwasanaethau gofal dydd, roedd y pwyllgor Archwilio wedi awgrymu y dylid sicrhau darpariaeth ar gyfer unigolion sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac fel seibiant ar gyfer gofalwyr. Cadarnhaodd y Swyddogion y bwriad o gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn Hafan Deg a Dolwen, a fyddai'n berthnasol i unrhyw unigolyn, waeth beth fo'u sefyllfa deuluol. Cytunwyd y dylid addasu geiriad yr argymhelliad ar gyfer Dolwen i egluro bod y gwasanaeth yn cynnwys darpariaeth gofal preswyl a gofal dydd. Ychwanegodd y Cynghorydd Ray Bartley bod y swyddogion wedi cytuno i ymgynghori a ddylid cynyddu'r ddarpariaeth chwe wythnos cyfredol i ddeg / deuddeg wythnos, o ran yr asesiadau gofal dydd. Adroddodd hefyd ar y canlyniad cadarnhaol yn dilyn cyfarfod gyda staff Dolwen i egluro'r broses.

[Ail-adroddodd y Cynghorydd Eryl Williams bod angen gwerthusiad llawn o drafodaethau'r pwyllgor archwilio ar faterion a gyflwynir i'r Cabinet i geisio penderfyniad].

Mynegodd y Cynghorydd Jason McLellan bryderon o ran diffyg manylion ynglŷn â darparwyr gwasanaeth posibl a sut y byddai'r gwasanaethau'n cael eu darparu yn y dyfodol. Eglurodd y Swyddogion bod angen ymgynghori'n eang ar yr opsiynau a ffefrir ar hyn o bryd a bod yn agored i awgrymiadau eraill – roedd yn bwysig peidio â cheisio dyfalu canlyniad yr ymgynghoriad gan y gallai hyn arwain at y risg o her. Byddai adroddiad yn ôl i'r Cabinet ym mis Ionawr / Chwefror yn cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad a chynigion manylach hefyd. Penderfynwyd bod angen proses gaffael i benderfynu pa ddarparwyr gwasanaeth penodol y dylid eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Argymhellodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ddull sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth i ddiwallu anghenion gofal preswylwyr y sir ac y dylid egluro hynny'n eglur yn yr ymgynghoriad. Adroddodd y swyddogion ar y dystiolaeth a ystyriwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen a oedd yn cynnwys data ac ystadegau o ddefnydd yn y gorffennol, defnydd cyfredol a'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar boblogaeth leol Sir Ddinbych ynghyd ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani. Roedd y dadansoddiad wedi nodi bod angen darpariaeth marchnad gymysg a oedd wedi'i adlewyrchu yn y cynigion. Nododd y Cabinet waith y Grŵp Tasg a Gorffen a'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn y broses ac roedd yn fodlon y gellir gwneud penderfyniad ar y dystiolaeth a ddarparwyd. Derbyniwyd y byddai angen sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei egluro'n ddigonol yn y ddogfen ymgynghori. Cytunwyd hefyd y dylid darparu dogfen ymgynghori drafft i'r aelodau cyn yr ymgynghoriad ffurfiol.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Cabinet yn:-*

*(a) cytuno i ymgynghori'n gyhoeddus ar yr awgrymiadau fel y nodwyd yn yr adroddiad ac a amlinellir isod-*

- *Hafan Deg - ymuno mewn partneriaeth â sefydliad allanol a throsglwyddo'r adeilad iddyn nhw, gan gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn yr adeilad ac,*

*yn ogystal, galluogi i asiantaethau trydydd sector ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn, a fyddai'n lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn hybu gwydnwch;*

- *Dolwen - ymrwymo i bartneriaeth gyda sefydliad allanol a throsglwyddo'r gwasanaeth cyfan iddynt (gofal preswyl a gofal dydd), a chofrestru ar gyfer gofal Iechyd Meddwl i'r Henoed.*

- *Awelon - atal derbyniadau newydd a gweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd ar gyflymder sy'n addas ar eu cyfer nhw i archwilio dewisiadau amgen addas fel y bo'n briodol ac i ymuno mewn partneriaeth â pherchennog Llys Awelon i ddatblygu mwy o fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle.*

- *Cysgod y Gaer - ymuno mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid perthnasol (gan gynnwys Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r 3ydd sector) i ddatblygu'r safle yn 'ganolfan gymorth' gan gynnig cyfleusterau preswyl a gofal ychwanegol, yn ogystal â gofal cartref allgymorth a gwasanaeth cymorth i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol a phoblogaeth ehangach ardal Edeirnion.*

*(b)* *Cytuno i ddechrau tendro ar gyfer darpariaeth gofal yn y cartref yng Nghynlluniau Gofal Ychwanegol Llys Awelon, Nant y Môr a Gorwel Newydd fel y nodwyd ym mharagraff 4.5.5 yr adroddiad;*

*(c)* *bod yn rhaid i unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol gydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal trwy gyfrwng y Gymraeg, ar gyfer y bobl hŷn sydd ei angen, a chynnal y gallu i wneud hynny, a*

*(d)* *Bod y Cyngor yn ymgysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Swyddogion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn annog gwell cydweithrediad a gwaith partneriaeth rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu gwasanaethau gofal i bobl hŷn.*

Ar y pwynt hwn (11.25 am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

**6 GWEITHREDU DEDDF TAI CYMRU 2014**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cabinet ar gyfer eu penderfyniad gwreiddiol (a wnaed ar 17 Chwefror 2015) i gadw prawf digartrefedd bwriadoldeb yn llawn yn dilyn diwygio'r terfynau amser a nodwyd.

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet i gadw'r prawf bwriadoldeb cynghorodd Llywodraeth Cymru y dylid diwygio'r terfyn amser a nodwyd oherwydd oedi o ran cadarnhau Cod Canllawiau Digartrefedd i gyd-fynd â Deddf Tai (Cymru) 2014. Gan na wnaed unrhyw newid i'r amodau a pharamedrau'n disgresiwn a roddir i Gynghorau o ran cadw'r prawf bwriadoldeb (heblaw'r amserlen), roedd y penderfyniad yn parhau i fod yn gyfreithiol ddilys. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru wedi argymell bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn ail-gadarnhau eu penderfyniad gwreiddiol. Cadarnhaodd y swyddogion bod y penderfyniad gwreiddiol wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi o fewn yr amserlen ddiwygiedig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi eu penderfyniad gwreiddiol i gadw'r prawf "Bwriadoldeb" yn llawn.*

## 7 DILEU TRETHI BUSNES

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dileu Trethi Busnes na ellid eu hadennill ar gyfer dau gwmni lle na fyddai camau adennill yn parhau oherwydd eu bod naill ai wedi eu dirwyn i ben neu eu diddymu. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion pellach yn ymwneud â phob cwmni.

Mewn ymateb i gwestiynau adroddodd y swyddogion ar y broses o adennill a'r defnydd o'r Gwasanaeth Methdaliad mewn achosion penodol a'r camau a gymerir i sicrhau bod "cwmnïau phoenix" yn cael eu nodi a bod unigolion yn cael eu dwyn i gyfrif. Nododd y Cabinet bod y ddyled ar gyfer un o'r cwmnïau yn ymwneud â chyfnod o ddwy flynedd a darparwyd sicrwydd ynglŷn â chadernid y broses adennill a'r terfynau amser perthnasol i sicrhau'r cyfle gorau i gael canlyniad cadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf o'r dyledion yn cael eu casglu yn ystod y flwyddyn ond oherwydd y terfynau amser gallai'r ddyled barhau am ddwy flynedd ariannol. Nododd y Cabinet na fyddai cost i'r Cyngor am y dyledion a waredir gan eu bod yn cael eu diwallu gan y Gronfa Genedlaethol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dileu Trethi Busnes na ellir eu hadennill fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad.*

## 8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.594 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 73% o'r arbedion y cytunwyd arnynt (targed o £7.3 miliwn) wedi'u sicrhau hyd yma
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth dargedau cyllideb neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol; a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth-

- Amlygwyd y cynnydd da a wnaed mewn perthynas â phrif brosiectau gan gyfeirio'n benodol at Ysgol Newydd y Rhyl a Datblygiad Nova Prestatyn. Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion a gyfranogodd at ddarpariaeth llwyddiannus Cynllun Datblygiad Arfordirol Gorllewin y Rhyl (Cam 3) a oedd yn brosiect risg uchel yn y dechrau a chyfeiriwyd at waith Cyngor Tref y Rhyl i

sicrhau gwelliannau pellach i’r ardal honno o’r promenâd gan gynnwys seddi / lloches.

- cafwyd trafodaeth dda yn y Pwyllgor Archwilio Cymunedau ynglŷn â gosod lefelau ffioedd parcio – roedd gosod ffioedd a thaliadau wedi’i ddirprwyo i Bennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a’r Amgylchedd ac roedd y newidiadau yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosibl.
- Byddai’r newidiadau i ddarpariaeth cludiant ysgol yn cael ei fonitro’n agos dros y misoedd nesaf ac roedd angen digon o amser i sicrhau asesiad cywir; byddai manylion ariannol contractau ysgolion ar gyfer 2015/16 ar gael ym mis Medi ac adroddir eu heffaith i’r Cabinet ym mis Hydref fel rhan o’r adroddiad cyllid rheolaidd.
- amlygwyd effaith gostyngiadau hysbys o incwm ffioedd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru unwaith eto fel pryder difrifol a oedd yn cael ei waethygu gan oedi’r Gweinidog o ran cadarnhau lefel yr incwm a’r gwaith yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet i’w ystyried a nododd yr Aelodau’r eitem ychwanegol ar gyfer mis Rhagfyr a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm.